# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**External**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Mai 2020

Amser: 14.53 - 15.28

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David Rees AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Staff y Pwyllgor: | Alun Davidson (Clerc)<br>Rhys Morgan (Ail Glerc)<br>Claire Fiddes (Dirprwy Glerc)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Nia Moss (Ymchwilydd)<br>Sara Moran (Ymchwilydd) |

## Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

0.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

0.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mandy Jones.

0.3 Datganodd Huw Irranca-Davies fuddiant fel Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Ewrop, Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru a Chadeirydd y Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol.

## 1 Trafod y dull gweithredu o ran arferion gwaith y Pwyllgor y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor

1.1 Cytunodd yr aelodau i newid arferion gwaith y Pwyllgor, er mwyn hwyluso trefniadau gweithio o bell.

## 2 Negodiadau ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol

2.1 Cytunodd y Pwyllgor i addasu'r modd y mae'n ymdrin â'r ffrwd waith hon o ystyried yr amgylchiadau presennol.

## 3 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Masnach 2020

3.1 Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i ofyn am ragor o wybodaeth am y Bil Masnach.

## 4 Trafod cytundebau rhyngwladol

4.1 Trafododd yr Aelodau gytundeb rhyngwladol yn ymwneud â Chyngor Ewrop: Confensiwn ar Gyd-gynhyrchu Sinematig.
4.2 Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth am y cytundeb.

## 5 Gohebiaeth rhwng Swyddfa'r Cabinet a Phwyllgor Cyswllt Tŷ'r Arglwyddi ynghylch gwaith craffu Seneddol ar fframweithiau cyffredin

5.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.